Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Yn dod yn fuan – Codau Ymarfer Proffesiynol newydd

**O 1 Gorffennaf 2026, bydd angen i weithwyr a chyflogwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru ddilyn ein Codau Ymarfer Proffesiynol newydd.**



## Beth sydd wedi newid?

Rydyn ni wedi diweddaru ein Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr gofal cymdeithasol, a'n canllawiau ymarfer.

- Rydyn ni wedi gwneud y codau'n symlach ac yn haws i'w deall.
- Nid yw'r safonau ymarfer ac ymddygiad wedi newid.

## I bwy mae'r codau'n berthnasol?

- Mae'n **rhaid** i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni ddilyn y Cod.
- Dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru ddilyn y Cod, hyd yn oed os nad oes disgwyl iddyn nhw gofrestru gyda ni ar hyn o bryd.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Eich rôl fel cyflogwr

Disgwylir i chi:

- gefnogi eich staff i ddeall y codau diwygiedig a'u defnyddio yn eu gwaith
- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n adlewyrchu'r safonau yn y codau newydd
- hyrwyddo diwylliant o atebolrwydd, parch a dysgu parhaus.

## Mwy o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i'r Codau Ymarfer Proffesiynol a chanllawiau ymarfer ar ein gwefan. Mae gennym ni hefyd adnoddau i'ch helpu i'w defnyddio.

Ewch i gofalcymdeithasol.cymru/codau neu sganiwch y cod QR.

